# A fydd eich plentyn yn dechrau yn yr ysgol uwchradd ym mis Medi 2027?

## Bydd ceisiadau'n agor ar 1 Medi 2026
## Gwnewch gais ar-lein erbyn 31 Hydref 2026



### Cam 01 Dewis Ysgol

Cyn cyflwyno eich cais:

- **Ymwelwch** â Dyddiau Agored ysgolion a darllenwch eu prosbectws ysgol unigol
- **Darllenwch** y Canllaw i Rieni ar Wasanaethau Addysg yn Sir y Fflint 2027
- **Gwiriwch** feini prawf gordanysgrifio a phroses dderbyniadau'r Awdurdod Lleol
- **Ystyriwch** sut fydd eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol



### Cam 02 Dyddiadau Allweddol

| | |
|---|---|
| **Dyddiad agor y ceisiadau** | 1 Medi 2026 |
| **Dyddiad cau'r ceisiadau** | 31 Hydref 2026 |
| **Dyddiad hysbysu rhieni** | 1 Mawrth 2027 |

### Cam 03 Ymgeisio Ar-lein

Derbyniadau i Ysgolion Uwchradd (Blwyddyn 7 Medi 2027)



### Cam 04 Ceisiadau Hwyr

- Mae'n bosibl cyflwyno cais ar-lein ar ôl y dyddiad cau.
- Os byddwch yn gwneud cais ar ôl y dyddiad cau, sef 31 Hydref 2026, ond erbyn 4 Ionawr 2027, bydd eich cais yn cael ei ystyried fel un hwyr ac ar ôl i'r holl geisiadau prydlon gael eu hystyried.
- Ni chaiff ceisiadau a dderbynnir ar ôl 4 Ionawr 2027 eu prosesu tan ar ôl y dyddiad cynnig cenedlaethol ar 1 Mawrth 2027.

### Angen Help?

Gall **Sir y Fflint yn Cysylltu** eich helpu i gwblhau eich cais.



### Cludiant Ysgol

- Dim ond i'ch ysgol uwchradd addas agosaf y darperir cludiant ysgol am ddim fel arfer, a hynny os yw'r pellter yn fwy na 3 milltir, yn amodol ar bolisi'r Cyngor.
- Os, o ganlyniad i'ch dewis ysgol, bydd eich plentyn yn mynychu ysgol wahanol i'r ysgol addas agosaf a gydnabyddir gan Gyngor Sir y Fflint, **byddwch yn gyfrifol am yr holl gostau a threfniadau cludiant.**
- Peidiwch â phenderfynu ar ysgol yn seiliedig ar argaeledd cludiant cyhoeddus, gan na ellir darparu unrhyw sicrwydd mewn perthynas â llwybrau a chapasiti.

Os ydych chi'n ansicr ynghylch pa ysgol sydd agosaf atoch chi, cysylltwch ag admissions@flintshire.gov.uk neu school.transport@flintshire.gov.uk am ragor o wybodaeth am eich cymhwysedd ar gyfer cludiant am ddim.

## Gwybodaeth lawn:

- Canllaw i Rieni ar Wasanaethau Addysg yn Sir y Fflint 2027
- Cais Cludiant Ysgol a'r Meini Prawf Cymhwyso

Dewch o hyd i ni ar

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council